

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn dangos sut y gellir trin mater ar y raddfa atomig a moleciwlaidd i ddiwallu anghenion peirianneg cymdeithas ar gyfer systemau sy'n mynd yn llai ac sy'n gweithredu fel monitorau, rheolyddion a micro-amgylcheddau deallus.

Mae'n cwmpasu: gwyddoniaeth ar y graddfeydd micro a nano; peiriannu systemau ar y graddfeydd micro a nano; dyfeisiau strwythurol/inertiaidd; dyfeisiau electronig/optegol; a dyfeisiau hylifol/biolegol.

Bydd y cwrs yn addysgu myfyrwyr ynglŷn â'r ffyrdd y mae technolegau micro a nano yn cael eu datblygu. Byddant hefyd yn meithrin sylfaen gadarn mewn peirianneg ar y graddfeydd micro a nano, drwy astudiaeth fanwl i'r ffordd y defnyddir egwyddorion gwyddonol ac egwyddorion peirianneg er mwyn dylunio a gweithgynhyrchu dyfeisiau go iawn.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad amlwg mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu oedolion, addysg bellach ac addysgu o bell
- y gallu i ddangos dull peirianneg o ddeall systemau ar y graddfeydd micro a nano
- diddordeb yn natur ryngddisgyblaethol peirianneg ar y graddfeydd micro a nano
- parodrwydd i ddefnyddio pecynnau cyfrifiadurol i ddarlunio a bywiogi addysgu o bell
- profiad o ddefnyddio cyfryngau electronig at ddibenion addysgu tiwtoraidd
- brwdfrydedd dros addysgu peirianneg.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad amlwg o diwtora drwy gyfrwng e-bost, fforymau ar-lein, a thiwтора electronig cydamseredig.
- profiad uniongyrchol o addysgu neu ymchwilio i dechnolegau micro neu nano, neu brofiad o'u defnyddio yn y diwydiant.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 30 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3